# GRUFFUDD LLWYD ab IFAN (fl. c. 1564), bardd

**Enw:** Gruffudd Llwyd ab Ifan
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Ray Looker

Nid oes dim o'i hanes ar gael, ond ymddengys oddi wrth un o'i gywyddau mai g  r o sir Fôn ydoedd. Ceir peth o'i waith mewn llawysgrifau, ac yn ei blith gywyddau i'r Doctor Elis Prys o Blas Iolyn (N.L.W. MS. 1247 (22)), Ieuan ap Sion ap Maredudd o Fryncyr (N.L.W. MS. 5282 (49), a Tudur ap Rhobert o Ferain (N.L.W. MS. 6495 (118b, 120 - yn llaw'r bardd, y mae'n debyg)). Heblaw'r canu moliant a marwnad, cadwyd cywydd ymryson ganddo i Ruffudd Hiraethog (N.L.W. MS. 5269 (280)) a chywydd moliant i Fôn (N.L.W. MS. 1559 (315)).

## Awdur

**Ray Looker**

## Ffynonellau


H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

William Owen Pughe, *The Cambrian Biography* (1803)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733109


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu